



Y tri pheth hanfodol

Mae gwahanol rywogaethau o ystlumod yn byw mewn mannau gwahanol, ond mae ar bob un ohonynt angen tri pheth yn eu hardal leol:

- digon o fwyd i roi egni iddyn nhw – yn y Deyrnas Unedig mae hynny'n golygu llawer o bryfed,
- dewis eang o fannau clwydo neu gysgod, fel arfer rhywle cynnes yn yr haf ond oerllyd yn y gaeaf,
- cysylltiadau da fel perthi, llinellau o goed, neu afonydd i'w helpu i deithio'n ddiogel rhwng mannau bwydo a'u clwydi.

Bydd ecosystem iach yn darparu'r tri pheth hyn, a dyna pam mae ystlumod yn un o ddangosyddion ansawdd amgylcheddol cenedlaethol y Deyrnas Unedig. Bydd unrhyw beth sy'n cael effaith ar unrhyw un o'r tair elfen hon yn cael effaith niweidiol ar ystlumod ac yn arwydd o amgylchedd afiach.

Cynefin da i ystlumod.



Yn y llun yma mae digon o fwyd i bryfed, sydd yn ei dro yn gallu troi'n fwyd i ystlumod.

Mae coed lle gallai ystlumod glwydo yn ystod rhan o'r flwyddyn, a pherthi sy'n creu coridorau teithio diogel. Ond mae angen ardal eang hyd yn oed ar yr ystlum lleiaf pitw i ddarparu'r holl fwyd a safleoedd clwydo sydd eu hangen ar hyd y flwyddyn, ac mae angen mwy fyth ar ystlumod mawr.

Edrychwch ar fapiau Arolwg Ordnans o'ch ardal, a gwefannau mapiau fel Google earth. Ceisiwch ragfynegi ble mae ystlumod yn fwyaf tebygol o fwydo yn yr haf.

Mae ystlumod hefyd yn aml yn defnyddio adeiladau i glwydo, ond rhaid iddynt beidio â bod yn rhy bell o safleoedd bwydo da.

Mae ystlumod yn aml yn dychwelyd i'r un safleoedd clwydo bob blwyddyn, ond weithiau mae newidiadau i'r amgylchedd, neu hyd yn oed dywydd anghyffredin, yn eu gorfodi i fynd i rywle gwahanol, felly mae angen bod ganddyn nhw lawer o leoedd i ddewis ohonynt.

Sylwch ar ddyffrynnoedd afon, llynnoedd ac ymylon coetir a allai fod yn addas.



Clwyd famolaeth o ystlumod hirglust mewn lofft.

Cysgod

Mae angen amrywiaeth eang o safleoedd clwydo ar ystlumod ar hyd y flwyddyn – ar gyfer gaeafgysgu, clwydi mamolaeth yn yr haf, clwydi nos a llawer mwy – sy'n gallu cael eu defnyddio i gysgodi neu orffwys.

Bwyd

Mae holl ystlumod y Deyrnas Unedig yn bwyta pryfed, ac mae angen iddynt gael digon ohonynt i sicrhau'r egni angenrheidiol i hedfan. Mae gwahanol rywogaethau yn chwilio am fwyd mewn gwahanol ffyrdd a gwahanol leoedd.

Cysylltiadau

Yn union fel mae angen ffyrdd arnom ni i fynd o'n cartrefi i'r siopau, mae angen coridorau hedfan diogel ar ystlumod, i gael hyd i'w ffordd o gwmpas, ac i osgoi cael eu dal gan ysglyfaethwyr.

Mae pob un o'r lleoedd hyn yn cael ei ddefnyddio gan ystlumod mewn gwahanol ffyrdd



© Steve Songhurst



© Shirley Thompson



© Shirley Thompson

Byddant hefyd yn ymweld â gerddi, tiroedd ysgol a pharciau os yw'r planhigion sy'n tyfu yno'n denu digon o bryfed.

Defnyddiwch synhwyrdd ystlumod i brofi eich rhagfynegiadau.



Bygythiadau a heriau

Mae poblogaethau ystlumod yn cael eu bygwth yn ddifrifol gan newidiadau i'r amgylchedd yn sgîl gweithredu gan bobl. Mae ystlumod a phobl wedi cyd-fyw ers miloedd o flynyddoedd, ond wrth i'r boblogaeth ddynol gynyddu'n eithriadol o gyflym, mae angen mwy o dir ar gyfer tai, ffyrdd a chynhyrchu bwyd. Ar hyn o bryd, mae ein poblogaeth yn parhau i dyfu, nid trwy dwf naturiol yn unig, ond hefyd wrth i bobl symud. Mae ffurflenni Cyfrifiad yn dangos mai 2,903,085 oedd poblogaeth ddynol Cymru yn 2001, ond ei bod wedi cyrraedd 3,063,456 erbyn 2011.

Twf y boblogaeth

Wrth i'r amgylchedd adeiledig ymledu, hynny yw twf trefi a'r seilwaith angenrheidiol i'w cynnal, mae galw cynyddol am dir. Mae tai, siopau, swyddfeydd, ysbytai a ffatrioedd yn hanfodol ar gyfer datblygiad trefol. Mae'r angen am ragor o gartrefi hefyd wedi arwain at drawsnewid llawer o hen adeiladau diwydiannol ac amaethyddol gwag. Mae rhwydwaith o ffyrdd a rheilffyrdd wedi arwain at ddarnio'r tirlun, gan ddinistrio'r coridorau naturiol y mae ar ystlumod eu hangen i gysylltu eu cynefinoedd.



© Shirley Thompson

Mae ardaloedd coetir a fu'n darparu safleoedd clwydo i ystlumod a bwyd i bryfed wedi cael eu clirio i'w datblygu. Bellach Cymru yw un o wledydd lleiaf coediog Ewrop, gyda 13% o goetir yn unig (y Comisiwn Coedwigaeth 2011) o gymharu â rhyw 37% yng ngwledydd yr Undeb Ewropeaidd (UE) (y Comisiwn Coedwigaeth, 2010). Mae cynefinoedd eraill wedi cael eu colli hefyd.

Newid arferion amaethyddol

Mae'r galw cynyddol am fwyd wedi arwain at ymdrechion i ddefnyddio'r tir mewn modd dwysach – trwy ychwanegu cemegion i roi maeth i'r pridd, a defnyddio chwynladdwyr a phlaladdwyr cemegol.

Mae pryfleiddiaid nid yn unig yn lleihau nifer ysglyfaeth yr ystlumod, ond hefyd, yn achos pryfed sy'n goroesi, gallai hynny olygu bod ystlumod yn eu llyncu, gydag effeithiau anhysbys ar eu gallu i fridio a hyd oes.

Mae maetholion sy'n cael eu hychwanegu at y pridd yn cael eu golchi i'r afonydd a'r dyfrffyrdd, gan amharu ar eu cydbwysedd naturiol trwy effeithio ar bryfed dŵr a llystyfiant.

Mae ein hamgylchedd wedi newid ac yn parhau i newid.

Mae angen i ni ddeall sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar dri angen sylfaenol ystlumod, a chynllunio ffyrdd o gynnal cydbwysedd natur a gweithio tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy. Ystyriwch:

- Sut mae safleoedd clwydo'n cael eu colli?
- Beth sy'n achosi colli niferoedd pryfed a'u hamrywiaeth?
- Sut mae llwybrau hedfan yn cael eu torri neu eu rhwystro?

Effeithlonrwydd ynni a phŵer adnewyddadwy

Mae cyflymu'r newid yn yr hinsawdd yn sgîl llygredd carbon atmosfferig (a nwyon eraill) wedi peri i lywodraethau ein hannog i inswleiddio ein cartrefi'n well; gallai hynny gyfyngu mynediad i'r lle yn y to, a gwneud lofftiau'n llai addas i glwydo yn yr haf, oni bai bod y gwaith yn cael ei wneud yn ofalus. Mae cynhyrchu trydan 'glân' sy'n defnyddio'r gwynt a'r haul yn ffynonellau yn dda, ond mae codi tyrbinau ar lwybrau hedfan wedi lladd llawer o ystlumod trwy wrthdrawiad ac anafiadau pwysedd (barotrauma) oherwydd bod y tyrbinau wedi'u lleoli'n amhriodol.

Mae mwy a mwy o bobl yn dechrau gosod gwerth ar ein bywyd gwyllt a'r amgylchedd ehangach rydyn ni'n byw ynddo. Mae rhai pethau wedi gwella gyda threigl y blynyddoedd.

Cadw'r ddysgl yn wastad

Rydyn ni'n aml yn clywed am gadw cydbwysedd rhwng anghenion sawl sector – i sicrhau manteision economaidd. Mae cadw cydbwysedd yn awgrymu y gallai rhywbeth golli tir, ac yn rhy aml, yr amgylchedd sydd wedi wynebu'r golled honno. Mae angen i ni gael hyd i atebion sy'n bodloni popeth, a dyna'n union yw nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2105) i Gymru – dan yr enw Cynaliadwyedd.

Beth yw eich barn chi?



© Steve Lucas